Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Croes Atti

**Chester Road**
**Y Fflint**
**CH6 5DU**

**Glannau Dyfrdwy**
**Plymouth Street**
**Shotton**
**CH5 1JD**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Croes Atti

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Croes Atti |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Y Fflint |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 269 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 197 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 39 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 32.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 19.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 12.0 |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Ionawr 2015 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 22/09/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 16/10/2023 |
| Mae dau safle i'r ysgol hon. Mae un safle o fewn tref y Fflint a'r llall o fewn tref Shotton, Glannau Dyfrdwy. | |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn mewn ystod o fedrau dros eu cyfnod yn Ysgol Croes Atti. Cryfder amlwg yr ysgol hon yw sut mae arweinwyr a staff brwdfrydig yn cydweithio’n llwyddiannus rhwng dau safle’r ysgol, yn y Fflint ac yn Shotton yng Nglannau Dyfrdwy, er mwyn datblygu disgyblion cyfrwng Cymraeg hyderus. Mae gwaith y staff i sicrhau datblygiad iaith Gymraeg y disgyblion yn glodwiw.

Mae arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda. Mae hyn yn cynnwys adnabod anghenion disgyblion, y gymuned a chryfderau a meysydd i’w gwella yn dda. Gyda’r wybodaeth yma wrth law, maent yn gosod cyfeiriad clir i’r ysgol ac yn gweithredu’n strategol wrth osod blaenoriaethau synhwyrol a chryfhau’r ddarpariaeth. O ganlyniad, mae darpariaeth gadarn ar waith i gefnogi lles disgyblion ac i wella safonau. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer sicrhau gofal, cymorth ac arweiniad i ddisgyblion yn gadarn iawn, ac yn llwyddo i gynnal a chryfhau lles holl ddisgyblion yr ysgol.

Mae’r addysgu da a’r cynllunio a wna’r athrawon i ddarparu cwricwlwm a phrofiadau dysgu difyr yn sicrhau bod gan ddisgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu. Drwy hyn, mae’r disgyblion yn teimlo eu bod yn perthyn i’r ysgol ac maent yn awyddus i gwblhau a dyfalbarhau â’u gwaith yn ddiwyd.

Mae gwaith a ffocws yr ysgol i ddatblygu disgyblion yn ddysgwyr annibynnol yn cael llwyddiannau amlwg, gan amlaf. Maent yn cael cyfleoedd i ddylanwadu’n fawr ar fywyd a gwaith yr ysgol, yn cyfrannu tuag at yr hyn yr hoffent ei ddysgu a gan amlaf yn cael cyfleoedd i lywio eu dysgu mewn gwersi yn synhwyrol. Er hyn, mae ychydig o agweddau’r addysgu a’r cynllunio yn cyfyngu’r disgyblion rhag datblygu medrau dysgu annibynnol o’r radd flaenaf. Fe welir canlyniad hyn gyda llai o gyfleoedd iddynt ysgrifennu’n estynedig ac yn rhydd, er enghraifft.

## Argymhellion

A1 Miniogi’r addysgu a’r cynllunio er mwyn adeiladu ar yr arferion gorau o ran datblygu medrau dysgu annibynnol y disgyblion

A2 Cynyddu’r cyfleoedd i ddisgyblion feistroli eu medrau ysgrifennu estynedig

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau llythrennedd, rhifedd a chymdeithasol sy'n cyfateb i'w cam datblygu, neu ychydig yn is na'r disgwyl. Dros eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer yn gwneud cynnydd cadarn mewn ystod eang o fedrau. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sydd â'r Gymraeg neu'r Saesneg yn iaith ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol.

At ei gilydd, mae medrau llythrennedd disgyblion yn datblygu'n gadarn. Er nad yw llawer o ddisgyblion yn dod o aelwydydd ble'r Gymraeg yw eu hiaith gyntaf, dros eu cyfnod yn yr ysgol, mae eu caffaeliad o ran y Gymraeg yn nodwedd gadarnhaol iawn.

Cryfder amlwg yw'r modd y mae rhan fwyaf yn cyfathrebu'n eglur a chynhyrchiol â'i gilydd ac oedolion, yn enwedig yn y Gymraeg. Maent yn sgwrsio'n aeddfed wrth gwblhau tasgau ac yn gwrando'n ofalus ar gyfraniadau eraill, er enghraifft wrth gynllunio araith ynglŷn â'u breuddwydion yn seiliedig ar araith Martin Luther King. Erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau llafar hynod gadarn yn y ddwy iaith.

Ar draws y cwricwlwm, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau darllen yn effeithiol i ddarganfod mwy am eu themâu. Yn y dosbarthiadau dysgu sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn adnabod geiriau cyfarwydd wrth ddarllen. Maent yn defnyddio ystod addas o strategaethau i ddarllen a deall testunau anghyfarwydd. Erbyn brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn glir â mynegiant, gyda ychydig ohonynt yn grefftus iawn wrth newid goslef eu llais er mwyn dynwared cymeriad o'u stori. Mae'r disgyblion hynaf yn defnyddio eu medrau darllen yn dda yn y ddwy iaith. Maent yn arddangos dealltwriaeth gadarn o gynnwys testunau gwahanol. Gallent fynegi barn a chywain gwybodaeth am bwnc arbennig o fwy nag un ffynhonnell yn ystyrlon.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn llwyddiannus drwy arbrofi a chreu marciau gydag adnoddau amrywiol. Maent yn cychwyn ysgrifennu geiriau cyfarwydd fel 'car' a 'bws' wrth ysgrifennu pa drafnidiaeth sydd yn eu tref. Wrth iddynt aeddfedu, maent yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu yn effeithiol mewn amrediad addas o ffurfiau, er enghraifft wrth adalw gwybodaeth flaenorol er mwyn ailysgrifennu stori am Santes Gwenffrewi gan ddefnyddio geirfa Gymraeg gyfoethog. Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn awyddus i ddefnyddio geirfa newydd ac yn ei chymhwyso'n effeithiol yn eu gwaith ysgrifenedig. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn ysgrifennu mewn ffurfiau gwahanol gan ddefnyddio ansoddeiriau pwrpasol yn eu darnau ysgrifenedig i roi ystyriaeth briodol i'r gynulleidfa. Fodd bynnag, ar ychydig o achlysuron, mae'r gorddefnydd o daflenni gwaith, tasgau caeedig a gorarwain gan staff yn llesteirio cynnydd disgyblion i gyflawni'n ddiogon uchel. Mae hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ddisgyblion feistroli eu medrau ysgrifennu'n estynedig a rhydd i lefelau uwch.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn gadarn. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dechrau adnabod rhifau, ac yn defnyddio'u

medrau rhifedd mewn cyd-destunau gwahanol, er enghraifft drwy ddidoli siapiau 2D yn gywir. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn datblygu ystod dda o fedrau mathemateg ac yn gwneud cynnydd cadarn, er enghraifft drwy ddefnyddio offer gwahanol i amcangyfrif faint o ddŵr sydd ei angen i greu paned i Nain yr hugan fach goch. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, maent yn adeiladu ar eu medrau yn fuddiol; er enghraifft, mae llawer ym Mlwyddyn 3 a 4 yn dosrannu rhifau yn ôl gwerth lle pedwar digid yn hyderus. Erbyn Blwyddyn 5 a 6, mae llawer yn defnyddio eu medrau rhifedd i gyfrifo gwerth lle degolion yn addas a thrwy gyfateb siapiau 3D i'w rhwydi perthnasol yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn cymhwyso eu medrau rhif yn gyson mewn gweithgareddau dysgu perthnasol a difyr ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn bwrpasol. O oedran cynnar, maent yn dechrau defnyddio'r medrau hyn mewn ffordd adeiladol mewn ystod gyfoethog o brofiadau dysgu ar draws y cwricwlwm, er enghraifft drwy ddefnyddio apiau i wneud i gymeriadau siarad a thrwy roi cyfarwyddiadau i degan rhaglenadwy. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn defnyddio technoleg yn dda i gofnodi a chefnogi eu gwaith, er enghraifft er mwyn cyfathrebu, cyflwyno gwybodaeth ac arbed eu gwaith. Er hynny, dim ond ychydig o ddisgyblion sy'n datblygu eu huwch fedrau digidol er mwyn datrys problemau, trin data drwy daenlenni a modelu.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron bob un disgybl yn hapus ac yn falch o'u hysgol. Maent yn teimlo'n ddiogel o fewn ei hethos teuluol, cynhwysol a gofalgar. Mae bron bob un disgybl yn gwybod at bwy i droi os oes pryder ganddynt ac yn hyderus y bydd staff yn gwrando ac yn delio'n briodol ag unrhyw fater, er enghraifft os oes unrhyw honiad o fwlïo'n codi. Maent yn ymddwyn yn dda iawn yn eu dosbarthiadau, wrth symud yn bwyllog o gwmpas yr ysgol ac yn ystod amser egwyl. Mae bron bob un disgybl yn gyfeillgar a chwrtais gan ddangos lefel uchel o barch at eu cyfoedion, ymwelwyr a staff. Maent yn eu cyfarch yn groesawgar ac yn dal y drws iddynt o'u gwirfodd, er enghraifft.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd cadw'r meddwl a'r corff yn iach. Mae'r disgyblion ieuengaf yn mynd i'r 'Hafan Heddwch' yn yr ardal ddysgu tu allan er mwyn ymdawelu, petai angen. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn trafod eu teimladau'n ddyddiol, sy'n cyfrannu'n effeithiol at gynnal eu hyder a'u lles emosiynol. Maent yn defnyddio siartiau 'sut wyt ti heddiw' a'r 'blwch bwrw bol' yn bwrpasol, gan wybod y bydd y staff yn delio ag unrhyw bryder yn amserol ac yn sensitif.

Mae gan y rhan fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd yfed a bwyta'n iach ac o sut i gadw'n heini. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 3 yn cynnal arbrawf ar faint o siwgr sydd mewn gwahanol ddiodydd. Maent yn cymryd rhan yn ddiwyd mewn gweithgareddau allgyrsiol yn ystod ac ar ôl ysgol, fel nofio a chlybiau chwaraeon.

Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o'u hawliau a'u cyfrifoldebau fel dinasyddion byd-eang. Mae'r cyngor 'Y Byd a'i Bethau' yn cyflwyno pwysigrwydd ailgylchu i ddisgyblion yr ysgol, ac yna'n rhannu cyngor â'r rhieni ar ffurf e-bost. Maent hefyd wedi cyfrannu bwydydd a chynnyrch amrywiol i'r banc bwyd lleol. Mae'r mentrau hyn yn eu helpu i ddatblygu'n ddinasyddion moesegol a chyfrifol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu. O oedran cynnar, maent yn ymdawelu’n gyflym i ddewis gweithgareddau dysgu mewn gwahanol ardaloedd. Mae’r rhan fwyaf yn ymgysylltu’n bwrpasol â’u tasgau, yn canolbwyntio’n dda, gan osgoi pethau sy’n tynnu sylw, ac yn cwblhau eu tasgau’n ddiffwdan. Maent yn dyfalbarhau â’u tasgau ac yn cydweithio’n dda â’i gilydd gan ddangos parch am syniadau disgyblion eraill. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando’n ofalus ac yn ymateb i’w syniadau’n ystyriol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn gadarn i gyfleoedd i gyd-gynllunio a dylanwadu ar yr hyn yr hoffent ei ddysgu. Er enghraifft, maent yn rhannu eu diddordebau a’u dyheadau mewn amrywiaeth o ffyrdd wrth gyfrannu ar lafar at fapiau meddwl neu drwy ddefnyddio technoleg ar ddechrau thema dymhorol. O ganlyniad i hyn, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddiddordeb ac agweddau cadarnhaol iawn wrth ymgysylltu â'u dysgu. Fodd bynnag, mewn rhai gweithgareddau o fewn lleiafrif o ddosbarthiadau, mae disgyblion yn dibynnu’n ormodol ar gyfarwyddyd athrawon ac nid ydynt yn gwneud digon o benderfyniadau am sut i drefnu a chyflwyno’u gwaith. Ar adegau, mae hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ddisgyblion feddwl drostynt eu hunain.

Yn ystod gwersi, mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn briodol i holi effeithiol ac adborth llafar athrawon. Yn yr amgylchiadau hyn, maent yn gwybod sut i wella eu gwaith. Mae llawer o ddisgyblion yn gwerthfawrogi ac yn adnabod strategaethau adborth cyson yr athrawon. Maent yn myfyrio’n briodol ar eu dysgu ac yn gwirio os yw eu gwaith yn bodloni disgwyliadau a osodwyd ar gychwyn y dasg. Mae’r disgyblion yn falch o dderbyn canmoliaeth ac adborth ysgrifenedig gan athrawon hefyd, er nid yw’r disgyblion bob tro’n cael cyfleoedd priodol i ymateb i’r adborth er mwyn symud eu dysgu ymlaen.

Mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ymuno â grwpiau sydd â chyfrifoldebau am agweddau gwahanol o fywyd yr ysgol. Mae aelodau’r grwpiau yn siarad yn fedrus am yr hyn y maent yn ei gyflawni ac yn cymryd eu rolau o ddifri. Er enghraifft, mae’r ‘Dewiniaid Digidol’ yn hybu diogelwch ar y we trwy osod posteri o amgylch yr ysgol gan ei berthnasu i hawliau plant i fod yn ddiogel. Yn ogystal, maent wedi sefydlu clwb amser cinio i ddisgyblion ymarfer eu medrau digidol. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o sut i aros yn ddiogel pan fyddant ar-lein, gan gynnwys peidio â rhannu eu cyfrineiriau na siarad â dieithriaid ar-lein.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yn gwella yn raddol ers pandemig Covid-19. Er hyn, mae cyfradd absenoldeb disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn parhau ychydig yn is o gymharu â disgyblion eraill.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r athrawon yn darparu profiadau dysgu sy’n ysbrydoli disgyblion. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r cwricwlwm ac yn cyd-gynllunio’n effeithiol ar draws y dosbarthiadau. O ganlyniad i hyn, mae staff yn rannu eu harbenigedd ar draws y cwricwlwm yn llwyddiannus. Mae’r gweithgareddau wedi eu cynllunio'n fwriadus ac yn adeiladu'n raddol ar wybodaeth, dealltwriaeth, medrau a phrofiadau presennol disgyblion i sicrhau dilyniant yn eu dysgu.

Mae arweinwyr a'r staff wedi gweithio'n ddiwyd i fagu a datblygu disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol. Maent yn cynllunio cyfleoedd difyr i ddisgyblion fagu eu medrau dysgu annibynnol, gan ymddiried ynddynt i ddysgu o fewn ardaloedd deniadol ar draws yr ysgol. Enghraifft dda yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddod yn ddysgwyr annibynnol a chreadigol trwy gyflawni heriau pwrpasol. Ar y cyfan, mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar ddatblygu annibyniaeth y disgyblion o'u mannau cychwyn. Er hyn, ar adegau, mae tueddiad i'r staff orarwain y dysgu, ac mae'r gorddefnydd o daflenni gwaith a thasgau caeedig yn tarfu ar fwriadau'r ysgol i ddatblygu dysgwyr annibynnol i lefelau uchel. Yn achlysurol, mae hyn, er enghraifft, yn arwain at ddiffyg cyfleoedd i ddisgyblion feddwl yn annibynnol a chofnodi eu gwaith mewn amrywiol ffyrdd yn ôl eu dewis eu hunain neu i ysgrifennu'n ddigon ymestynnol.

Mae cwricwlwm a darpariaeth yr ysgol i gefnogi datblygiad ieithyddol y disgyblion yn effeithiol iawn ac yn cael dylanwad cadarnhaol ar fedrau siarad a gwrando llawer o'r disgyblion, gan gynnwys disgyblion newydd i'r sector addysg Gymraeg. Mae'r ddarpariaeth hon yn sicrhau bod y cwricwlwm yn diwallu anghenion bron pob disgybl ac yn adlewyrchu cyd-destun cymuned yr ysgol yn effeithiol. Cryfder amlwg yn yr addysgu yw'r ffordd y mae staff yn hybu a modelu'r defnydd o'r Gymraeg. Drwy hyn, maent yn arddel agweddau cadarnhaol y disgyblion tuag at y defnydd o'r Gymraeg. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn datblygu ac yn adeiladu medrau llafar Cymraeg effeithiol iawn.

Mae athrawon yn gwneud eu dosbarthiadau'n lleoedd ysgogol a difyr lle gall pob grŵp o ddisgyblion ddysgu'n gynhyrchiol. Mae corneli difyr a defnyddiol ar draws yr ysgol sy'n diddori disgyblion ac yn cynnwys ystod dda o adnoddau i gynorthwyo'r dysgu. Mae'r athrawon a'r staff cynorthwyol yn creu awyrgylch dysgu cynhyrchiol a chartrefol, sy'n datblygu agweddau cadarnhaol ymysg disgyblion tuag at eu dysgu. Maent yn rheoli eu dosbarthiadau yn drefnus, yn gosod cyflymder da i'r gwersi ac yn sicrhau bod ystod y gweithgareddau sydd ar gael i'r disgyblion yn ennyn eu diddordeb.

Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn adnabod y disgyblion yn dda ac mae perthynas waith arbennig yn bodoli rhyngddynt. Maent yn ofalgar ohonynt ac yn rhoi cymorth amserol a bwriadus i wella eu medrau a sicrhau eu lles. Ar draws yr ysgol, mae'r cymorthyddion yn cefnogi'r dysgu'n briodol. Maent yn trin pob disgybl yn gyfartal ac yn hyrwyddo amrywiaeth yn dda, er enghraifft wrth gynorthwyo newydd-ddyfodiaid i ymgartrefu'n gyflym yn eu hysgol newydd. Mae hyn yn cyfrannu'n hyfryd tuag at yr ymdeimlad o deulu sy'n llifo trwy gymuned yr ysgol, ac yn darparu amgylchedd dysgu cefnogol ar gyfer pob disgybl.

O fewn gwersi, mae'r athrawon yn defnyddio holi medrus i hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion ac yn ymyrryd ar adegau priodol i roi cymorth effeithiol i bob grŵp o ddisgyblion. Maent yn darparu adborth llafar gwerthfawr ac adeiladol i ddisgyblion. Mae hyn yn rhoi arweiniad clir iddynt am yr hyn sydd angen ei wneud i wella eu gwaith yn ystod gwersi. Mae athrawon hefyd yn darparu adborth ysgrifenedig sy'n dathlu llwyddiannau disgyblion ac yn aml yn cywiro eu gramadeg a'u hatalnodi. Er hyn, anghyson yw ansawdd yr adborth ysgrifenedig er mwyn rhoi cyfeiriad defnyddiol i ddisgyblion wella eu gwaith, ac nid oes cyfleoedd digon cyson iddynt ymateb mewn modd digon cynhyrchiol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae’r perthnasoedd gwaith cadarnhaol sydd rhwng staff a disgyblion ac ymhlith y disgyblion yn nodwedd gref yn Ysgol Croes Atti. Mae’r staff yn adnabod y disgyblion, eu cefndiroedd, a’r gymuned leol yn dda iawn. Maent yn rhoi blaenoriaeth uchel i les disgyblion ac yn ymateb â sensitifrwydd i’w hanghenion emosiynol a chymdeithasol. Ar draws yr ysgol, mae corneli hyfryd o fewn y dosbarthiadau, er enghraifft yr ‘Ardal Anadlu’, sy’n annog y disgyblion i ymlacio a defnyddio ystod o wrthrychau er mwyn ymdawelu. Mae sesiynau ymyrraeth buddiol yn cefnogi lles emosiynol y disgyblion yn werthfawr. Mae hyn yn cyfrannu’n sylweddol at eu hapusrwydd a’u medrau cymdeithasol, ac mae’r awyrgylch cefnogol yn helpu disgyblion i ymgyfarwyddo’n hawdd â bywyd ysgol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau llwyddiannus er mwyn olrhain a monitro cynnydd disgyblion. Mae’r staff yn adnabod a chlustnodi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol ac yn sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd effeithiol. Maent yn darparu rhaglenni cymorth penodol ar gyfer medrau llythrennedd a rhifedd, a lles emosiynol disgyblion. Trwy hyn, maent yn gwerthuso effaith yr ymyraethau yn ofalus gan fireinio ac ailosod camau defnyddiol ar gyfer gwella, sy’n galluogi disgyblion i barhau i wneud cynnydd da dros amser.

Mae staff yn gweithio’n agos gyda theuluoedd ac asiantaethau allanol i greu cynlluniau cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Caiff y cymorth hwn, ynghyd â chyfathrebu’n rheolaidd â rhieni, effaith gadarnhaol ar eu cynnydd a’u lles. Yn ogystal, mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol a staff mewnol. Maent yn darparu cymorth arbenigol i rieni a gofalwyr drwy sesiynau cefnogi wythnosol, er enghraifft er mwyn eu cynghori ar hanfodion cwsg effeithiol, ynghyd â chynnal gweithdai therapiwtig celf a chrefft. Mae hyn yn cryfhau’r berthynas rhwng yr ysgol a’r cartref ac yn cael effaith gadarnhaol ar y cydweithio a’r cyswllt er budd y teulu a’r plentyn.

Mae’r ysgol yn cynnig amryw gyfleoedd i ddisgyblion gadw’n heini trwy weithgareddau pwrpasol sy’n cynnwys ymweld â pharc lleol, tir yr ysgol a chynnal sesiynau gwerthfawr sy'n hyrwyddo myfyrdod meddyliol a chorfforol. Mae disgyblion Blwyddyn 2, er enghraifft, yn mynd i’r goedwig ar daith synhwyrau i drochi eu hunain yng nghanol natur fel rhan o’u gwaith thema. Mae gan yr ysgol drefniadau pwrpasol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach ac mae disgyblion yn deall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i gadw’n heini. Maent wedi darparu ffynnon ddŵr i’r disgyblion er mwyn eu hannog i gadw eu hunain wedi’u hydradu yn ystod y dydd.

Mae disgyblion yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu medrau mynegiannol ac arddel diwylliant a hanes Cymru yn effeithiol, er enghraifft drwy gyfansoddi a pherfformio cân gyda cherddor enwog o Gymru. Mae hyn yn datblygu medrau creadigol a hunanhyder disgyblion ac yn cyfrannu’n fuddiol at feithrin parch a balchder disgyblion at eu cynefin. Mae’r ysgol yn dathlu ei threftadaeth Gymreig yn gadarnhaol trwy ymweliadau maes i gefnogi eu gwaith. Mae disgyblion Blwyddyn 1 a 2, er enghraifft, yn mynd ar daith o amgylch y dref i adnabod nodweddion naturiol a dynol ac yn datblygu eu medrau llythrennedd yn bwrpasol trwy ysgrifennu llythyr ffurfiol at y cyngor tref yn cynnig gwelliannau.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd sy'n cyfrannu at ddatblygu credoau ysbrydol a moesegol disgyblion, ac yn eu cynorthwyo i ymchwilio i faterion sy'n gysylltiedig â goddefgarwch a pharch at bobl eraill. Yn dilyn sesiwn cadair boeth ddychmygol gyda Martin Luther King, mae disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn datblygu areithiau teimladwy am freuddwydion o fyd teg a chyfartal i bawb.

Mae gan bob disgybl fynediad cyfartal i holl agweddau darpariaeth yr ysgol a'r un cyfleoedd i gymryd rhan ym mywyd llawn yr ysgol. Caiff disgyblion ystod gynyddol o gyfleoedd i ddatblygu medrau arwain a pharatoi ar gyfer bywyd oedolyn, er enghraifft trwy eu haelodaeth o'r cyngor ysgol a'r cynghorau cwricwlaidd. Mae aelodau o'r grwpiau hyn yn cyfrannu'n effeithiol at welliannau ysgol gyfan, fel gweithredoedd yr Cyngor Cymraeg i hyrwyddo defnydd y Gymraeg ar draws yr ysgol. At ei gilydd, mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at finiogi medrau Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion, gan eu hybu i ddod yn siaradwyr Cymraeg balch a hyderus.

Mae gan yr ysgol systemau priodol ar gyfer monitro presenoldeb disgyblion. Maent yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau lles er mwyn hyrwyddo presenoldeb da, Mae'r ysgol yn ymwybodol o'r angen i barhau i ganolbwyntio ar leihau'r bwlch rhwng presenoldeb disgyblion sydd yn gymwys i brydau ysgol am ddim a'u cyfoedion. Mae ganddynt drefniadau effeithiol i gysylltu â'r cartref pan fydd disgybl yn absennol. Ceir diwylliant cryf o ddiogelu ar draws yr ysgol. Mae eu trefniadau i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinyddiaeth effeithiol y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae'n arwain tîm llwyddiannus o arweinwyr a staff sydd wedi llwyddo i weithio gyda rhanddeiliaid i greu gweledigaeth gytûn. Mae hyn yn seiliedig ar ddatblygu medrau ieithyddol Cymraeg y disgyblion, a chreu diwylliant Cymreig fel elfen ganolog o fywyd a gwaith yr ysgol. O ganlyniad, mae ymdeimlad cryf o Gymreictod yn bodoli.

Mae arweinwyr yn gweithredu'n gadarn i sicrhau bod y weledigaeth yn cefnogi disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol a parchus, sy'n awyddus i lwyddo. Mae ymdeimlad o ymddiriedaeth, balchder a pharch yn bodoli rhwng disgyblion a staff sy'n treiddio'n naturiol ar draws cymuned deuluol yr ysgol. Mae arweinwyr yn adnabod anghenion y disgyblion, yr ysgol a'i chymuned yn dda. Gyda thîm brwdfrydig o staff, maent yn llwyddo i gydweithio'n fedrus rhwng dau safle'r ysgol, yn y Fflint ac yn Shotton yng Nglannau Dyfrdwy.

Mae amcanion strategol clir wedi eu gosod gan arweinwyr ac maent yn deall eu cyfrifoldebau'n dda. Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel o'i hun ac eraill ac yn gwneud defnydd effeithiol o arbenigeddau'r holl staff i gefnogi lles a chyflawniad disgyblion. Cydweithir yn effeithiol â'r dirprwy bennaeth ac arweinwyr eraill, ac o ganlyniad, maent yn cyfrannu'n effeithiol at weithredu blaenoriaethau'r ysgol, yn ogystal ag atgyfnerthu ethos tîm cynhyrchiol ymysg athrawon a chynorthwywyr.

Mae diwylliant agored a chefnogol yn hybu ac yn annog dysgu proffesiynol yr holl staff. Mae arweinwyr yn cynnal cyfleoedd buddiol iddynt gymryd rhan mewn ystod dda o hyfforddiant sy'n ymateb i'w gofynion unigol a blaenoriaethau'r ysgol yn

synhwyrol. O ganlyniad, mae gweithdrefnau datblygiad proffesiynol yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion a staff.

Mae gan arweinwyr drefniadau pwrpasol ar gyfer rheoli adnoddau ariannol ac maent yn ymwybodol o bwysigrwydd ceisio lleihau effaith tlodi ar gyflawniad disgyblion. Maent yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn addas er mwyn gwella safonau a phresenoldeb grwpiau penodol o ddisgyblion, er enghraifft drwy gynllunio a gweithredu sesiynau teulu 'teulu time'. O ganlyniad, mae'r cyfleoedd i rieni ymgysylltu â'r ysgol yn dda. Mae arweinwyr yn rheoli'r gyllideb yn ofalus ac yn clustnodi gwariant i gyd-fynd â'u blaenoriaethau yn synhwyrol, gan gynnwys blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Er hyn, ar hyn o bryd, mae gan yr ysgol warged sylweddol ac mae wedi cytuno cynllun â'r awdurdod lleol i'w liniaru.

Mae'r llywodraethwyr yn derbyn gwybodaeth ac adroddiadau priodol sy'n cefnogi eu gwaith yn addas. Maent yn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac yn ymgymryd â'u dyletswyddau statudol yn briodol. Mae ganddynt ymwybyddiaeth o brosesau arfarnu'r ysgol, a hefyd yn arfarnu effeithiolrwydd eu hunain fel corff. Er bod cadeirydd y corff llywodraethol yn newydd i'w swydd, mae llywodraethwyr wedi rhoi cynllun ar waith i fanteisio ar arbenigedd unigolion wrth gynnal prosesau craffu ac arsylwi. O ganlyniad, maent yn cynnal gweithgareddau craffu ac arsylwi priodol gan herio a chynorthwyo'r ysgol er mwyn mynd i'r afael â'u blaenoriaethau yn ystyrlon.

Mae'r gweithdrefnau hunanwerthuso yn adnabod cryfderau ac agweddau ar gyfer gwelliant yn briodol. Mae'r cynllun gwella ysgol yn nodi camau gweithredu priodol a thargedau addas er mwyn datblygu meysydd penodol ar draws yr ysgol. Mae arweinwyr yn rhoi amserlenni synhwyrol ar waith i sicrhau bod blaenoriaethau'n cael sylw priodol a'u bod yn gyraeddadwy. Gan amlaf, mae'r ysgol yn bodloni ei blaenoriaethau mewn modd amserol. Enghraifft dda o sut mae'r ysgol yn gweithio'n strategol yw wrth osod blaenoriaeth sy'n canolbwyntio ar gynyddu'r ddarpariaeth i gefnogi disgyblion gyda'u lleferydd a'u hiaith. Drwy hyn, mae buddsoddiad sylweddol yn cael ei glustnodi er mwyn darparu adnodd cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol, sy'n cyfrannu'n dda at wella medrau cyfathrebu dysgwyr penodol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  18/12/2023